WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Gorffennaf 2013

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Llythyr 1 Asesu Gwelliant - Cynllunio gwelliant

Mae hwn yn adolygiad o drefniadau cynllun gwella y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r llythyr, yn cael ei gynhyrchu yn gyffredinol, yn dilyn cyhoeddi cynllun gwella y Cyngor. Mae gwaith wedi dechrau ac bydd y llythyr drafft yn barod erbyn diwedd mis Gorffennaf 2013. Gan fod yna etholiad y flwyddyn hon, mae'r Cyngor wedi oedi cyn cynhyrchu ei gynllun gwella tan yr Hydref 2013. Mae hyn yn debyg i'r trefniadau flwyddyn ddiwethaf gydag awdurdodau eraill yng Nghymru. Bydd y llythyr felly yn darparu asesiad o gynnydd.

### Llythyr 2 Asesu Gwelliant - Profi ac Archwilio Cyhoeddi Asesu Perfformiad y Cyngor

Mae hwn yn adolygiad o ba mor dda mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y llythyr hefyd yn darparu sylwebaeth yr Archwiliad Ansawdd Data. Bydd y llythyr yn cael ei gynhyrchu erbyn mis Tachwedd 2013.

### Adroddiad Gwella Blynyddol

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn crynhoi'r holl waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'r hyn a wnaed gan reoleiddwyr perthnasol, megis Estyn, AGGCC a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael ei gynhyrchu ym mis Ionawr / Chwefror 2014.

### Adolygu ansawdd data

Roedd yr adolygiad yn cael ei adnabod yn flaenorol fel yr ‘archwiliad dangosyddion perfformiad’. Mae'n adolygiad o systemau i sicrhau cywirdeb y wybodaeth am berfformiad ac yn cynnwys detholiad o ddangosyddion perfformiad. Mae gwaith wedi dechrau a bydd yn cael ei adrodd trwy adborth lleol ac yn ymddangos yn Llythyr 2 Asesu Gwelliant ym mis Tachwedd.

### Astudiaeth Gwella - Diogelu

Adolygiad o drefniadau llywodraethu a rheoli awdurdod cyfan ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Bydd yr astudiaeth yn darparu adborth lleol ac adroddiad cenedlaethol. Amseru i’w gadarnhau.

### Astudiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Leol – Diwygio Lles

Adolygiad o drefniadau i reoli effaith diwygio lles. Bydd yr astudiaeth hon yn cael eu cynnal mewn nifer o Gynghorau dethol a gall olygu dychwelyd data ar gyfer yr holl awdurdodau. Mae adroddiad cenedlaethol a phapur briffio fel arfer yn cael ei gynhyrchu. Amseru i’w gadarnhau.

### Astudiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Leol – Cyflawni gyda llai – yr effaith ar wasanaethau a dinasyddion

Cyntaf mewn cyfres o astudiaethau cenedlaethol i feysydd gwasanaeth penodol i archwilio sut mae defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau sy'n lleihau. Bydd yr astudiaeth hon yn cael eu cynnal mewn nifer o Gynghorau dethol a gall olygu dychwelyd data ar gyfer yr holl awdurdodau. Mae adroddiad cenedlaethol a phapur briffio fel arfer yn cael ei gynhyrchu. Amseru i’w gadarnhau.

## Gwaith sy’n benodol i Ynys Môn

| **Digartrefedd** |
| --- |
| Cafodd adolygiad byr o Ddigartrefedd ei gynnal cyn yr etholiad. Bydd y canfyddiadau yn cael eu hadrodd trwy adborth lleol a'u cynnwys yn y Llythyr 1 Asesu Gwelliant. |

| **Adolygiad lleol** |
| --- |
| Adolygiad o effeithiolrwydd y berthynas rhwng cynghorwyr, a rhwng cynghorwyr a swyddogion, yn dilyn yr etholiadau yn 2013. Bydd y gwaith yn cael ei gynnal mis Tachwedd / Rhagfyr 2013 a bydd yn cael ei adrodd trwy adborth lleol ac yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. |